CYPE(6)-16-22 – Papur i'w nodi 2

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

—

Children, Young People and Education Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Jeremy Miles AS

30 Mehefin 2022

Plant y lluoedd arfog

Annwyl Jeremy,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 24 Mai 2022 am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i blant y lluoedd arfog yng Nghymru. Gwnaethom drafod y llythyr yng nghyfarfod ein Pwyllgor ar 16 Mehefin 2022.

Casglu data

Rydym yn croesawu eich bod chi a'ch swyddogion yn ystyried y dulliau posibl ar gyfer casglu gan ysgolion ddata ar blant lluoedd arfog yn ymwneud ag addysg. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod data cywir a dibynadwy yn fan cychwyn hollbwysig wrth gasglu tystiolaeth am brofiadau plant sy'n aelod o deulu yn y lluoedd arfog, a'i bod felly'n hollbwysig penderfynu pa gamau – os o gwbl – y mae angen i addysgwyr a llunwyr polisi eu cymryd er mwyn eu cefnogi.

Yn 2018, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd fod "gwaith yn parhau yng Nghymru i alluogi casglu data ar blant aelodau o'r Lluoedd Arfog mewn ysgolion trwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion."[1] Gobeithiwn, o ystyried bod y gwaith hwn eisoes wedi cael ei ddechrau yn 2018, y gall symud ymlaen yn gyflym yn ystod y Chweched Senedd, er gwaethaf yr heriau sy'n dod yn sgil Brexit a COVID.

Felly, byddem yn gwerthfawrogi mwy o eglurder ynghylch yr amserlenni sy'n gysylltiedig â'r corff hwn o waith. A allwch chi nodi:

- pryd y disgwylir i'ch gwaith cwmpasu gael ei gwblhau;

[1] Llywodraeth Cymru,'Cyfamod Lluoedd Arfog Llywodraeth Cymru Adroddiad Blynyddol 2018', tudalen 26

- pryd ydych chi'n disgwyl i ddull casglu data gael ei gytuno; a
- phryd y disgwyliwch i ysgolion ac asiantaethau eraill ddechrau gweithredu pa newidiadau bynnag sydd eu hangen?

Cefnogaeth i blant y lluoedd arfog

Rydym yn nodi bod dull gweithredu Llywodraeth Cymru yng Nghymru yn wahanol i ddull gweithredu Llywodraeth y DU yn Lloegr, sef bod Cymru'n darparu cymorth wedi'i deilwra i blant o'r lluoedd arfog drwy'r cysylltiadau uniongyrchol rhwng Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog mewn Addysg i Gymru (SSCE), Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion a'r plant eu hunain.

Ar hyn o bryd, nid oes gennym farn am rinweddau'r naill ddull na'r llall.

Fodd bynnag, rydym wedi cymharu'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ymrwymo i gefnogi plant lluoedd arfog yng Nghymru â'r swm y mae Llywodraeth y DU yn ei ddarparu i gefnogi plant y lluoedd arfog yn Lloegr drwy Bremiwm Disgyblion y Lluoedd Arfog.

Mae eich llythyr yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £270,000 ar gyfer 2022-23 i gefnogi plant y lluoedd arfog yng Nghymru. Mae ysgolion yn Lloegr yn derbyn £310 y flwyddyn am bob plentyn o'r fath ar gofrestr yr ysgol. Yn seiliedig ar y data yn eich llythyr, rydym yn amcangyfrif y byddai'n costio tua £830,000 y flwyddyn i Lywodraeth Cymru pe bai'n mabwysiadu dull gweithredu Llywodraeth y DU, [2] tua £560,000 yn fwy na'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu ar gyfer cymorth i blant y lluoedd arfog yn 2022-23.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech:

- egluro a yw Llywodraeth Cymru yn darparu llai o arian y pen, a pham, i gefnogi addysg y plant hyn yng Nghymru o gymharu â lefelau ariannu Lloegr ar gyfer plant y lluoedd arfog; a
- darparu copi i'r Pwyllgor o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a fu'n sail i ddull Llywodraeth Cymru o ddarparu cymorth i blant y lluoedd arfog yng Nghymru o ran lefelau ariannu a'r penderfyniad i ariannu Rhaglen Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog mewn Addysg i Gymru a Chyswllt Rhanbarthol a model y Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol yn hytrach na'r dull o ddarparu cyllid yn uniongyrchol i ysgolion.

Byddwn yn ddiolchgar o gael y wybodaeth hon erbyn dydd Gwener 9 Medi fan bellaf.

[2] Roedd y data a gasglwyd gan SSCE Cymru ochr yn ochr ag awdurdodau lleol ac ysgolion, fel y'u nodir yn eich llythyr, yn nodi bod 2,677 o blant milwyr yng Nghymru. Felly, y gost i Lywodraeth Cymru o fabwysiadu dull Llywodraeth y DU ar gyfer rhoi cymorth i blant lluoedd arfog fyddai £310 x 2,677 o blant = £826,770 y flwyddyn.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.